Site Stakeholder Group

**Crynodeb o’r pwyntiau allweddol o gyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2023**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd ei anerchiad

2. Cafwyd diweddariad gan Mr John Idris Jones ar Gwmni Egino a chyflwynodd Lisa Birks a Tom Hurfurd. Hefyd cyflwynodd Zoe Pritchard o Gwmni Lafan

3. Cyflwynodd Angharad Rayner Adroddiad Cyfarwyddwr Safle’r Gwasanaethau Adfer Niwclear (NRS)

4. Cafwyd diweddariad gan Nigel Wright ar y prosiectau Dymchwel Cymhlethfa’r Pyllau a Lleihau Uchder ar safle Trawsfynydd.

5. Cyflwynodd Tanya MacLeod ddiweddariad gan y Swyddfa Reoleiddio Niwclear (ONR)

6. Rhoddodd Dave Wilby grynodeb ar yr adroddiad ar y cyd rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac Asiantaeth yr Amgylchedd a ddosbarthwyd yn flaenorol

7. Crynhodd Pip Hatt ei hadroddiad Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) a ddosbarthwyd yn flaenorol trwy gyswllt fideo wedi'i recordio.

8. Rhoddodd Bill Hamilton ddiweddariad ar ran NRS Cyf

Site Stakeholder Group

**Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd**
**Dydd Llun 4 Rhagfyr 2023, 13.00 o'r gloch**
**Y Ganolfan Gynadledda**

## COFNODION

**PRESENNOL**

| **ENW** | **SEFYDLIAD** |
|---|---|
| Cyng. Keith O'Brien, | Cyngor Cymuned Trawsfynydd (Cadeirydd) |
| Angharad Rayner | Cyfarwyddwr Safle |
| Elin P Jones | NRS – Uwch Swyddog Cyfathrebu |
| Bill Hamilton | NRS - Cyfarwyddwr Materion Allanol |
| Sandra Hughes | NRS – Clerc Gweinyddol |
| Rory Trappe | Grŵp Ymddeoledigion Trawsfynydd |
| Paul Richardson | NRS / Undeb Prospect |
| Steve Thomason | NRS / Undeb Prospect |
| Sam Morgan | Annibynnol |
| John Idris Jones | Cwmni Egino |
| Lisa Birks | Cwmni Egino |
| Tom Hurford | Cwmni Egino |
| Zoe Pritchard | Cwmni Lafan |
| Cyng. Elfed Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Cyng. D. M. Williams | Cyngor Cymuned Maentwrog |
| David Wilby | CNC |
| Tanya MacLeod | ONR |
| Steve Harris | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Nia Bowden | Cyngor Gwynedd |
| Iwan Jones | Cyngor Gwynedd |
| Sion Roberts | Parc Cenedlaethol Eryri |
| Gerallt Rhun | Trawsnewid |
| Colin Tucker | Preswylydd Penrhyndeudraeth |
| Nigel Wright | NRS |
| Cyng. John Richards | Cyngor Cymuned Talsarnau |

**Yn Mynychu**

| | |
|---|---|
| Aled Jones | Cymen – Cyfieithydd |
| Sydna Roberts | Cymen – Cymerwr cofnodion |

### 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod am 2pm.

Nodwyd yr ymddiheuriadau canlynol: -

| | |
|---|---|
| Elliw Williams | Cwmni Egino |
| Cathryn Pritchard | NRS |

Rory Chape Cynllunio Argyfwng, Dwr Cymru
Jeff Hall Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Cyng. Meryl Roberts Cyngor Tref Penrhyndeudraeth
Gwyn Roberts Arolygydd Safle NRS
Gwen Pettifor Merched y Wawr
Jonathon Holland Gwasanaeth NWEP
Cyng. Gwynfor Owen Cyngor Gwynedd, Talsarnau a Harlech

Ni dderbyniwyd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

**Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2023**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2023 a'u derbyn fel cofnod cywir ar amod cywiro bod Cyng. J. Richards yn bresennol.

**Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2023**

Ni chodwyd unrhyw un.

**Anerchiad y Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac adroddodd ar gyfarfodydd yr oedd wedi'u mynychu ers mis Medi 2023, cyflwyniad Cymdeithas y Diwydiant Niwclear (NIA) yng Nghaerdydd; Cyfarfod GRhS/NDA ym Manceinion a chyfarfod Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion GRhS.

*Cyflwynwyd eitem 11 ar y cam hwn o'r agenda er mwyn hwyluso presenoldeb swyddogion mewn cyfarfod arall.*

**2. Diweddariad Cwmni Egino – John Idris Jones**

Croesawyd Mr J I Jones i'r cyfarfod. Cadarnhaodd fod achos busnes Cwmni Egino bellach wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i'r llywodraeth ganolog.
Hysbysodd yr aelodau am ddau benodiad arall i Gwmni Egino - Lisa Birks a Tom Hurford, Pennaeth Datblygu Prosiectau, a oeddynt yn bresennol yn y cyfarfod, a rhoddodd gyflwyniad byr i'r ddau a'u gyrfa hyd yn hyn. Adroddodd Zoe Pritchard o Gwmni Lafan ar ddatblygiad prosiect cyfredol i ddarganfod themâu hanes lleol a fydd yn llywio strategaethau datblygu Cwmni Egino yn y dyfodol. Bydd y gweithgareddau hyn yn cynnwys cyfweliadau 1 i 1 mewn ysgolion a chlybiau a chymdeithasau lleol, yn ogystal â chylchredeg holiaduron yn lleol. Cydnabu ZP fod Trawsnewid yn ffynhonnell wybodaeth amhrisiadwy i gefnogi'r prosiect.
Pwysleisiodd JIJ bwysigrwydd hyrwyddo Cwmni Egino, ei nod a'i amcanion ac anogwyd yr aelodau i leisio'u cefnogaeth yn ffurfiol gyda'r holl endidau perthnasol. Cytunwyd y byddai Cwmni Egino yn cynhyrchu llythyr safonol o gefnogaeth y gellir ei rannu'n lleol.

**3. Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Trawsfynydd – Angharad Rayner**

Croesawyd Angharad Rayner, Cyfarwyddwr Safle Trawsfynydd, i'r cyfarfod a rhoddodd gyflwyniad i'r aelodau ar ddatblygiadau safle ers y cyfarfod diwethaf, wedi'i grynhoi fel a ganlyn: -

Mae Magnox Cyf bellach wedi'i ail-frandio fel Gwasanaethau Adfer Niwclear (NRS) o 31 Hydref 2023. Mae hyn yn fwy na dim ond newid arwyddion, mae'n dangos bod y newidiadau o fewn y sefydliad bellach yn ei gyfeirio at ganolbwyntio ar gyflenwi, trawsnewid, arloesi a thyfu.

**Ffocws ar Ddiogelwch**
2668 diwrnod ers anaf a achosodd golli amser.

**Iechyd a Lles**

Mae'r cwmni wedi bod yn cynnal ymgyrchoedd Iechyd a Lles sy'n edrych ar bwysigrwydd iechyd meddwl ac annog diogelwch seicolegol. Gwahoddwyd staff i fynychu gweminarau ar y pynciau hyn. Mae staff hefyd wedi cael eu hannog i fanteisio ar dalebau brechlyn y ffliw. Mae cylchlythyr staff misol hefyd wedi'i ddatblygu.

**Proffil Gweithlu**

| | Nifer ar y safle | Lleol |
|---|---|---|
| NRS | 227 | 95% |
| Staff asiantaeth | 18 | 55% |
| Contractwyr | 89 | 79% |

**Prentisiaethau**
Mae cyfanswm o 8 prentis ar y safle -
Mae 1 prentis cynnal a chadw Crefftau Mecanyddol wedi cwblhau ei gwrs
2 X Cynnal a chadw Crefftau Trydanol
1 X Cynnal a chadw Crefftau Mecanyddol
4 X Technegydd Diogelu RAD

Mae 2 brentis dros dro ar gontract cyfnod penodol wedi'u cyflogi er mwyn iddynt allu cwblhau eu prentisiaeth ar ôl i'w cyflogwyr fynd i ddwylo'r gweinyddwyr.
Mae yna 6 cyfle prentisiaeth newydd arall yn Nhrawsfynydd, mae manylion ar gael ar wefan NRS.

**Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd**

Nododd AR fod y Gweilch wedi gadael y safle am y tymor ar ôl magu dau gyw yn llwyddiannus eleni.

Mae Uwchgynllun Bioamrywiaeth yn cael ei ddatblygu a fydd yn cefnogi ceisiadau cynllunio presennol ac yn y dyfodol o ran gwrthbwyso bioamrywiaeth.

Disgwylir adroddiad terfynol ar yr arolygon maes cychwynnol erbyn diwedd mis Mawrth 2024.

Mae NRS wedi partneru gyda chwmni cenedlaethol 'Neighbourly' i hyrwyddo gwaith gwirfoddol yn y gymuned, gyda Thrawsfynydd yn safle prawf.

**STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg)**

Dywedodd AR fod y digwyddiadau canlynol wedi'u cynnal ers y GRhS diwethaf;

- Croesawu 8 myfyriwr profiad gwaith ym Mehefin/Gorffennaf

- 2 fyfyriwr profiad gwaith ym mis Hydref
- Ymweliadau o Ysgol y Moelwyn, Ysgol Eifionydd ac Ysgol Uwchradd Tywyn
- Mynychodd cynrychiolwyr safle ddigwyddiad trwy Rwydwaith Seren.

**Cyflawniadau diweddar**

Crynhodd AR gyflawniadau diweddar fel a ganlyn:

- Gweithdy ymgysylltu cymunedol yn ystod yr haf
- Ymgysylltiad gwagio'r pyllau
- Sawl ymweliad rhyngwladol
- Lleihau uchder – gwahoddiad i dendro wedi'i gyflwyno i'r gadwyn gyflenwi
- Ymarferiad arddangos cynllun argyfwng
- Gwaith trin carthion – dechrau ar y cam comisiynu anweithredol
- Cais am ganiatâd i ddymchwel pyllau.
- Gwaith dad-blannu resin
- Ailgomisiynu systemau awyru pyllau a chraeniau i gefnogi cam olaf y dadelfennu
- Arolygon ar ddatgymalu adweithyddion yn parhau
- Contractau wedi'i gosod ar gyfer pecynnau dylunio cynllun datgymalu adweithyddion
- Wedi datrys problemau growtio ac yn ôl yn gweithredu

**Gwaith safle am y 6 mis nesaf –**

- Parhau i yrru'r growtio o becynnau GLG
- Cais amrywio caniatâd – dechrau dadbeiriannu terfynol cynteddau a lonydd y pyllau
- Adolygu tendrau ar gyfer lleihau uchder
- Cwblhau 15 llwyth GLI
- Dechrau clirio ôl troed y neuadd dyrbin yn barod ar gyfer lleihau uchder
- Cwblhau gwaith carthion newydd a'i drosglwyddo i weithrediadau arferol

**Llinell Amser Lleihau Uchder**

- Hysbysu'r Gadwyn Gyflenwi am amserlenni'r cynllun a chaffael – *cwblhawyd* Rhagfyr 2022
- Cyhoeddi Holiadur Dethol – *cwblhawyd* Mai 2023
- Gwahoddiad i Dendro – *cwblhawyd* Awst 2023
- Adolygiad o dendrau – Chwefror 2024
- Cyfnod Negodi a Sgorio Cynigion Terfynol – Mai 2024
- Proses Sancsiynau a Sicrwydd yn dechrau – Mehefin 2024
- Dyfarnu'r Contract – Ionawr 2025
- Gwaith ffisegol – Ebrill 2025

**Cynlluniau datgymalu adweithyddion**

Adroddodd AR gynnydd da dros y 6 mis diwethaf gydag Datgymalu Adweithyddion. Cafwyd cymeradwyaeth ym mis Gorffennaf i ddechrau gwaith datblygu'r 3-4 blynedd nesaf. Mae gwaith dylunio'r cynllun yn mynd rhagddo a bydd yn rhoi dealltwriaeth dda o sut y caiff yr adweithyddion eu datgymalu. Bydd model 3D o adeilad yr adweithydd yn ei gyfanrwydd yn cefnogi'r gwaith dylunio hwn, a bydd y model yn cael ei rannu gydag aelodau'r Grŵp

Rhanddeiliaid Safle ymhen amser.
O ran y cwmpas nodweddu, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud i ddeall data allweddol ar gyfer yr adweithyddion, gan gynnwys data ffisegol, dimensiynol a radiolegol.

**Grantiau Economaidd-Gymdeithasol NRS**
Mae cyllid economaidd-gymdeithasol NRS yn parhau i fod yn £1,020,035 y flwyddyn, sydd ar gael ar draws pob un o'r 12 safle NRS gyda £954,380 o gyllid eisoes wedi'i ymrwymo.

Yn lleol, derbyniodd Clwb Pêl-droed Porthmadog £1749 i brynu offer hyfforddi ac ariannu cwrs i hyfforddwyr gwirfoddol i redeg sgrym pêl-droed merched yn unig.

Derbyniodd Clwb Pêl-droed Iau Dyffryn a Thalybont £935 tuag at goliau alwminiwm annibynnol newydd.

Derbyniodd Cell B £10,000 ar gyfer prosiect Iard i ddodrefnu cynhwysydd Iso ar gyfer gofod amlbwrpas i gynnal gweithdy prosiect celf a bwyd i bobl ifanc.

Derbyniodd Tîm Achub Mynydd Aberglaslyn £4558.00 ar gyfer citiau dal dŵr ar gyfer 35 o aelodau tîm gwirfoddol di-dâl.

Disgrifiwyd gwobrau mwy eraill fel a ganlyn: -

Menter Môn - £500,000 dros ddwy flynedd i ddarparu Prosiect £3.5m Menter Gwynedd a Môn i gefnogi mentrau newydd ar draws y ddwy sir.

Mae Balchder Môn a Grymuso Gwynedd yn canolbwyntio ar ddatblygu gallu a hyder o fewn ei gymunedau. Mae'r Hwb Menter, sy'n cefnogi busnesau newydd yng Ngwynedd a Môn wedi derbyn £400,000.

Diolchodd y Cadeirydd i AR am ei diweddariad cynhwysfawr a gwahoddodd yr aelodau i gyflwyno unrhyw gwestiynau.

**Sesiwn Holi ac Ateb**

Cododd y Cyng. John Richards fater ymweliadau ag ysgolion. Cadarnhaodd AR mai dim ond ymweliadau STEM sy'n cael eu cynnal mewn ysgolion ar hyn o bryd, a bod NRS yn adolygu cysylltiadau â sefydliadau addysgol yn barhaus. Nododd y Cyng. John Idris hefyd ei ddiddordeb mewn gweld y sefydliad yn mabwysiadu Strategaeth Iaith Gymraeg. Nododd AR y bydd NRS yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o adolygu eu Polisi Iaith Gymraeg, a beth yw gofynion y sefydliad er mwyn cydymffurfio â gofynion statudol y Gymraeg.

O ran y cylchlythyr chwarterol ar les staff, awgrymodd y Cadeirydd y dylid cynnwys aelodau'r GRhS ar y rhestr ddosbarthu er mwyn hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth a gwella cylch gorchwyl aelodau fel 'cyfeillion beirniadol'. Cytunwyd i gynnwys aelodau'r GRhS ar y rhestr ddosbarthu ar gyfer cylchlythyrau yn y dyfodol.

**4. Diweddariad ar brosiect dymchwel cymhlethfa'r pyllau – Nigel Wright**
Croesawyd Mr Nigel Wright i'r cyfarfod ac ategodd yr amserlenni fel a ganlyn:-

Llinell amser dymchwel cymhlethfa'r pyllau

- Ch3/Ch4 - amrywiad trwydded rheoleiddio sylweddau ymbelydrol (RSR)
- Ch4 2023 – cyfnod penderfynu 2 flynedd
- Ch3 2027 – dechrau proses dyfarnu contractwr
- Ch3 2030 – cwblhau'r gwaith ffisegol.

Diolchodd y Cadeirydd i NW am ei ddiweddariad a gwahoddodd yr aelodau i gyflwyno unrhyw gwestiynau.

**Sesiwn Holi ac Ateb**
Pwysleisiodd y Cyng. Elfed Roberts bwysigrwydd ystyried y gwerthoedd cymdeithasol i'r gymuned wrth ddyfarnu cytundebau.
Gofynnodd Colin Tucker, un o drigolion Penrhyndeudraeth, pam fod un ochr i'r cyfadeilad yn uwch na'r llall. Dywedodd NW fod hyn yn rhan o'r broses ddylunio pensaernïol.
Holodd y Cyng. Meredydd Williams am y broses gynllunio. Ategwyd bod y Parc Cenedlaethol yn rhan o drafodaethau'r broses gynllunio.

**5. Adroddiad gan y Swyddfa Reoleiddio Niwclear – Tanya MacLeod**
Cyflwynodd Tanya McLeod ei hadroddiad am y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 30 Medi 2023. Nododd y bu nifer o arolygiadau yn ystod y cyfnod gyda chasgliadau boddhaol i gyd. Cadarnhaodd fod yr arolygydd diogelwch safle enwebedig, trwy gydol y cyfnod adrodd hwn, wedi cynnal y cyfarfodydd pythefnosol gyda chynrychiolwyr tîm arweinyddiaeth Trawsfynydd i drafod gwytnwch y gweithlu, trafnidiaeth ar y safle, digwyddiadau a gweithgareddau a gynhelir ar y safle. Ni thynnwyd sylw'r ONR at unrhyw faterion arwyddocaol. Cynhaliwyd ymarfer brys lefel 1 ar 7 Mehefin 2023 a enillodd sgôr 'Boddhaol'. O ran Materion Anarferol, nid oedd unrhyw faterion neu ddigwyddiadau o'r fath o bwys yn ystod y cyfnod.

Diolchodd y Cadeirydd i TM am ei diweddariad.

**Sesiwn Holi ac Ateb –** dim cwestiynau.

**6. Adroddiad gan Gyfoeth Naturiol Cymru - Dave Wilby**
Croesawyd Dave Wilby i'r cyfarfod, a chyflwynodd ei adroddiad a oedd yn cwmpasu'r cyfnod ers mis Mehefin 2023 ac a grynhowyd fel a ganlyn:-

- Rhoddodd arolygiad 1 diwrnod a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2023 ar reoli asedau sicrwydd bod y trefniadau rheoli asedau yn addas, a nododd gynnydd o ran gweithredu ac aeddfedrwydd y gronfa ddata rheoli asedau.

- Arolygiad 1 diwrnod ym mis Medi 2023 yn canolbwyntio ar y trefniadau ar gyfer dadansoddi ac adrodd ar ollyngiadau gwastraff ymbelydrol dyfrllyd. Ni nodwyd unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

- Mae CNC yn parhau i gynnal sesiynau dal i fyny rheolaidd bob pythefnos gydag NRS i drafod materion rheoleiddio.

- Arhosodd gollyngiadau ymbelydrol i aer a dŵr o Drawsfynydd ymhell islaw'r terfynau a ganiateir yn y cyfnod adrodd hwn.

- Monitro amgylcheddol - roedd yr holl ganlyniadau a gyflwynwyd yn unol â'r rhai o gyfnodau blaenorol ac nid ydynt yn dangos unrhyw achos i bryderu.

**Sesiwn Holi ac Ateb –** dim cwestiynau.

**7. Adroddiad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear –**
Roedd Pip Hatt wedi cyflwyno ymddiheuriadau i'r cyfarfod ond wedi crynhoi'r adroddiad a ddosbarthwyd yn flaenorol trwy gyswllt fideo fel a ganlyn: -

- Mae gan adran noddi'r NDA, yr Adran dros Ddiogelwch Ynni a Net Zero (DESNZ), Ysgrifennydd Gwladol newydd, Claire Coutinho.

- Daeth Cadeirydd Dros Dro newydd yr NDA, Chris Train OBE, i gymryd lle Roz Rivaz, y daeth ei thymor yn y swydd i ben ym mis Awst.

- Cyfarfu Chris Train a David Peattie â Chadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Grŵp Rhanddeiliaid Safle ym Manceinion ar 16-17 Hydref.

- Ar ôl yr uwchgynhadledd bersonol lwyddiannus i randdeiliaid yng Nghaeredin y llynedd, mae paratoadau ar waith ar gyfer y digwyddiad personol nesaf yn Cumbria yn 2024. Rydym yn parhau i hyrwyddo digwyddiadau personol ac ar-lein, a byddwn yn cynnal uwchgynhadledd rithwir ar 12 Rhagfyr 2023.

- Mae'r NDA eisoes wedi cynnal sioeau teithiol ymgysylltu â rhanddeiliaid rhanbarthol mewn partneriaeth â'r byd academaidd eleni, gyda chynlluniau ar y gweill i gynnal un mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor yn 2024.

- Cymerodd yr NDA ran yn 'Wythnos yn y Senedd' Cymdeithas y Diwydiant Niwclear ym mis Medi.

- Roedd yr NDA hefyd yn bresennol yn chwaer ddigwyddiad yr NIA yn Senedd Cymru, lle siaradodd Cyfarwyddwr Safle'r NRS, Angharad Rayner, am gynnydd yr NDA a Thrawsfynydd wrth gyflawni ein cenhadaeth, a'r manteision y mae datgomisiynu yn eu rhoi i economi Cymru, gan gynnwys cyflogaeth a datblygu sgiliau.

- Mae paratoadau wedi parhau i'r NDA a'r NRS ymgymryd â datgomisiynu'r fflyd o Adweithyddion Uwch wedi'u Hoeri â Nwy (AGRs) gan EDF Energy. Disgwylir mai Hunterston B fydd y safle cyntaf i'w drosglwyddo yn 2026.

- Mae'r NDA wedi datblygu cod ymarfer drafft i roi arweiniad i safleoedd a chwmnïau trwydded safle (SLCs) ar sut y gellid asesu amseriad a chyflymder datgomisiynu mewn modd mwy strwythuredig, cyson a thryloyw. Mae'r tîm strategaeth yn hapus i ymgysylltu ag unrhyw GRhS sydd eisiau mwy o wybodaeth.

- Mae'r NDA wedi cyhoeddi ei Adroddiad Cynnydd Cenhadaeth, sy'n manylu ar y gwaith sydd wedi bod yn digwydd ar draws y grŵp dros y flwyddyn ddiwethaf, a sut mae hynny'n cyfrannu at gyflawni cenhadaeth yr NDA.

- Bob tair blynedd, mae'r NDA yn adolygu ei strategaeth economaidd-gymdeithasol i wirio ei bod yn addas i'r diben ac yn cael ei diweddaru lle bo angen. Roedd i fod i fynd yn fyw ar GOV.UK tua diwedd Tachwedd 2023 a phara 12 wythnos. Dylai cadeiryddion GRhS fod wedi derbyn copi ymlaen llaw.

- Mae'r gwaith o chwilio am safle addas ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol (GDF), i waredu gwastraff actifedd uwch y DU yn barhaol, yn parhau. Mae'r Gwasanaethau Gwastraff Niwclear (NWS) yn chwilio am gymunedau eraill a allai fod â diddordeb mewn cymryd rhan.

Cydnabu'r Cadeirydd dderbyn y cyflwyniad.

**Sesiwn Holi ac Ateb**
Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y gellir cyflwyno unrhyw gwestiynau i Pip Hatt drwy Ysgrifenyddiaeth y GRhS.

**8. Diweddariad NRS - Bill Hamilton**
Croesawyd Bill Hamilton i'r cyfarfod a hysbysodd yr aelodau fel a ganlyn: -

- Gan gyfeirio at yr ail-frandio diweddar ategodd BH fod hyn yn arwydd gwirioneddol o newid i'r cwmni.
- Cyhoeddir Strategaeth 10 mlynedd NRS yn fuan o dan arweiniad y Prif Weithredwr newydd, Rob Fletcher. Bydd hwn yn cael ei ddosbarthu i holl aelodau'r GRhS unwaith y bydd wedi'i gwblhau.
- Big Conversation – mae hwn yn gwmni annibynnol sydd wedi bod yn cysylltu â chymunedau i ganfod barn pobl ifanc. Gobeithir defnyddio'r sgyrsiau dilynol i lywio trafodaethau pellach ar ddatblygiadau'r NRS yn y dyfodol.

Diolchwyd i BH am ei gyflwyniad.

**Sesiwn Holi ac Ateb**

Holodd y Cyng. Elfed Roberts a oedd NRS yn ymgysylltu â Chwmni Lafan a sefydliadau lleol eraill. Nododd BH fod trafodaethau eisoes ar y gweill gyda Chwmni Egino ac y byddant yn cysylltu â Zoe Pritchard ar ôl heddiw. Mynegodd Rory Trappe bryder ynghylch diffyg cysylltiad rhwng asiantaethau. Cyfeiriodd yn benodol at weithgaredd casglu gwybodaeth leol flaenorol ee Stori Traws. Awgrymodd ddatblygu fforwm fel Ynys Ynni ar Ynys Môn. Dywedodd BH y byddai NRS yn dymuno cymryd rhan ond na fyddai'n gallu arwain ar fforwm o'r fath. Pwysleisiodd TH yr angen i osgoi gweithio ar wahân a bod cynlluniau i drefnu gweithdy ar y cyd yn ystod Chwefror/Mawrth 2024.
Cyfeiriodd Elin P Jones hefyd at fudiad sefydledig Uchelgais Gogledd Cymru.

## 9. UFA

Holodd y Cyng. Meredydd Williams am yr amserlen ar gyfer adeiladu'r adeilad storio gwastraff newydd. Dywedodd AR y bydd angen cam dylunio manwl i ddechrau, fodd bynnag, nid oedd yn rhagweld y byddai angen 2il gyfleuster storio o fewn y 5 mlynedd nesaf.
Gofynnodd Gerallt Rhun (Trawsnewid) a oedd diweddariad ynghylch y bont. Cadarnhawyd bod trafodaethau yn parhau rhwng Cyngor Cymuned Trawsfynydd a'r NDA. Er nad oes unrhyw ymrwymiadau wedi'u cadarnhau hyd yma, mae'r NDA wedi ymrwymo i gynnal y ddeialog ac yn gwbl ymwybodol o'r safbwyntiau lleol brwd.
Holodd y Cyng. J Richards ynghylch cyllid NDA/NRS. Hysbyswyd yr aelodau bod cyfarfod ar fin digwydd i drafod dyraniadau cyllid, ac nid oedd unrhyw arwydd o ostyngiad yn y lefelau ariannu presennol. Dywedodd AR fod Trawsfynydd mewn sefyllfa gref fel safle arweiniol ar gyfer datgomisiynu.

## 10. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 20 Mehefin 2024 – gan ddechrau gydag ymweliad safle |
| Amser: | 1pm |
| Lleoliad: | Canolfan Gynadledda a Chynefino Trawsfynydd |

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a therfynu'r cyfarfod am 3.45 pm